OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn, rhychwant a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran—

(i) Cymru;

(ii) parth Cymru;

(iii) cychod pysgota Cymreig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "a bennir" ("*specified*") yw a bennir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn unrhyw ddogfennaeth a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu a ddarperir ganddynt fel arall;

ystyr "cwch pysgota Cymreig" ("*Welsh fishing boat*") yw cwch pysgota—

(a) sydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**), a

(b) y mae ei gofnod yn y gofrestr yn pennu porthladd yng Nghymru sydd i'w drin fel yr un y mae'r cwch yn perthyn iddo;

ystyr "hysbysedig" ("*notified*") yw hysbysedig yn ysgrifenedig;

mae "ysgrifenedig" ("*writing*") yn cynnwys cyfathrebiadau electronig o fewn ystyr adran 15(1) (dehongli cyffredinol) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**), a gofnodwyd ac y gellir felly eu hatgynhyrchu.

(**1**) 1995 p. 21. Mae Rhan 2 wedi ei diwygio gan O.S. 2002/794 ac O.S. 2015/664.

(**2**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15 gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.